**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar Orffennaf 13eg, 2009 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y.p.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. A M Jones (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); K Finch (Trysorydd); C Everett (Clerc); C Hanks ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Griffiths (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); I Williams (Rheolwr Cefnogaeth Gweithredol); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau); M Halstead (Cyngor Bwrideistref Sirol Conwy, Archwilio Mewnol); Mike Owen (Rheolwr Prosiect y System Dyletswydd Ran Amser).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| P Claydon | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| R Fairhead | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |

1 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

1.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11eg Mai 2009 yn gofnod gwir a chywir.

2 MATERION YN CODI

2.1 *3.3 adran gweithio gyda phobl ifanc – i ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer y maes hwn, nodwyd na fyddai'r wybodaeth honno ar gael tan yr hydref.*

3 Y STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2008-2012

3.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am strategaeth gyffredinol Archwilio Mewnol. Swyddogaeth sicrwydd yw'r Archwilio Mewnol yn anad dim, ac mae'n darparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad ynghylch yr amgylchedd rheoli a'r modd y mae'n rheoli risg.

3.2 Esboniwyd bod gan y Tîm Archwilio Mewnol raglen dreigl o feysydd i'w harchwilio, ac felly mae'n bosib y bydd y meysydd archwilio yn ymwneud â risg uchel ac isel yn y blynyddoedd sydd i ddod.

3.3 **PENDERFYNWYD derbyn y Strategaeth Archwilio Mewnol 2008–2012.**

4 CRYNODEB O WEITHGARWCH ARCHWILIO MEWNOL YN 2008/09 AC ASESIAD O ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT AR GYFER 2009/10

4.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am y crynodeb o'r gwaith Archwilio Mewnol a wnaed yn 2008/09, a gofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2009/10.

4.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa eu bod hwythau, trwy'r Awdurdod a'r Panel Gweithredol, yn craffu ar rai meysydd gwaith, megis y rhaglen gyfalaf, a hynny trwy gydol y flwyddyn.

4.3 **PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi'r Crynodeb o weithgarwch Archwilio Mewnol yn 2008/09; a**
**(ii) cymeradwyo'r Asesiad o Anghenion a'r Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2009/10.**

5 DATGANIAD SICRWYDD YR ARCHWILIAD MEWNOL 2008/09

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Aelodau, gan ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei systemau Rheolaeth Fewnol. O 2009/10 ymlaen, bydd y datganiad rheolaeth fewnol yn cael ei ddisodli gan y datganiad llywodraethu blynyddol.

5.2 Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2009, roedd gan ATAGC brosesau rheolaeth fewnol a threfn lywodraeth foddhaol i reoli'r modd yr oedd yr Awdurdod yn cyflawni ei amcanion.

5.3 **PENDERFYNWYD derbyn Datganiad Sicrwydd Blynyddol yr Archwiliad Mewnol, ac iddo gael ei ddefnyddio fel cyfraniad i'r dystiolaeth yn y Datganiad Rheolaeth Fewnol 2008/09.**

6 FFORWM Y SYSTEM DYLETSWYDD RAN AMSER

6.1 Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mike Owen, Rheolwr Prosiect y System Dyletswydd Ran Amser, i'r cyfarfod. Cafodd yr aelodau gyflwyniad ar waith y Fforwm sydd yn bodoli ers 2007.

6.2 Roedd aelodaeth y Fforwm yn cynnwys y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Simmons, Mike Owen a 12 o aelodau o staff y System Dyletswydd Ran Amser oedd â phrif gyflogaeth ynghyd â dyletswyddau'r System, ac a oedd yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm bob chwarter. Roedd aelodau'r Fforwm yn awyddus i'r Panel Gweithredol dderbyn y diweddaraf ynghylch gwaith y Fforwm ac i sicrhau'r Aelodau fod materion y System o ddydd i ddydd a'r pryderon tymor hir yn cael eu trafod yn rheolaidd.

6.3 I gyflwyno'r cefndir, cyfeiriodd Mike Owen at yr Adolygiad o'r Heriau o ran Recriwtio a Chadw Staff a gyhoeddwyd yn 2006 yn dilyn sefydlu bwrdd adolygu i edrych ar y materion sy'n ymwneud â'r System Dyletswydd Ran Amser yng Nghymru a Lloegr. Roedd yr adroddiad yn gwneud cyfres o argymhellion mewn perthynas â'r heriau, oedd yn cynnwys cydnabod a rhoi cyhoeddusrwydd i waith y System Dyletswydd Ran Amser, recriwtio a chadw staff a'r goblygiadau ariannol.

6.4 Bu'r Panel Gweithredol yn ystyried yr argymhellion yn 2007, gan gytuno mai'r prif faterion yng Ngogledd Cymru oedd cydraddoldeb, recriwtio a chadw staff, rôl ehangach staff y System a'r cynllun cyflog. Fe osododd y Panel ddyddiadau targed ar gyfer gweithredu cyfres o argymhellion, yn cynnwys sefydlu Fforwm y System Dyletswydd Ran Amser.

6.5 Roedd y gwaith yn y meysydd canlynol bellach wedi ei gwblhau:

- creu pecyn i gyflogwyr – ei ddiben oedd cryfhau'r gwaith o feithrin perthynas â busnesau lleol i ryddhau staff ar gyfer dyletswyddau'r System, ac i dynnu sylw at manteision a allai ddod i'r busnes gan weithwyr y System;
- gwybodaeth ar y fewnrwyd – cyhoeddi gwaith y Fforwm i'r holl staff ei weld;
- ymgynghori ynghylch y System Cofnodi Digwyddiadau.

6.6 Roedd gwaith yn mynd yn ei flaen yn y meysydd canlynol:

- codi'r proffil – cyhoeddi erthyglau yn y cylchgrawn i staff, a meithrin perthynas â gwahanol adrannau er mwyn nodi anghenion staff y System;
- parhaodd gweithgor Cymru gyfan y System Dyletswydd Ran Amser i gyfarfod, a rhoddodd gyfle i Fforwm y System gyfle i gwrdd â'u cymheiriaid o'r Canolbarth a'r Gorllewin, a'r De; ei ddiben oedd ffurfio dull cydweithredol a rhannu arferion da;

- pecyn cais – i'w ddiweddaru er mwyn darparu gwybodaeth ynghylch yr hyn y gellir disgwyl ei gael fel aelod o'r System, yr ymrwymiad y disgwylir ei roi, a'r manteision i'r unigolyn a'r prif gyflogwr a allai ddod;
- symleiddio gwaith gweinyddol.

6.7 Yn dilyn yr ymgyrch recriwtio diffoddwyr tân yn ddiweddar, cafodd 3 aelod o'r System eu penodi i'r system dyletswydd amser cyflawn, roeddent wedi bod drwy'r un broses o wneud cais, ond dim ond yn y cam cyfweld yr oeddent wedi cymryd rhan gan eu bod eisoes wedi sefyll y prawf corfforol.

6.8 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod y Cynulliad wedi sefydlu pwyllgor i edrych ar faterion yr ochr ran amser yng Nghymru, ac y dylai ei adroddiad gael ei gyhoeddi erbyn Mawrth 2010.

6.9 I ateb cwestiwn ynghylch meithrin perthynas â chyflogwyr, nodwyd bod y Cynulliad yn gefnogol iawn i hyn. Roedd Mr Owen wedi ymweld â nifer o awdurdodau lleol a oedd bellach yn rhyddhau staff i ddyletswyddau'r System Dyletswydd Ran Amser. Roedd yna ganfyddiad fod diffoddwyr tân y System yn cael eu galw allan drwy'r amser, ond mewn gwirionedd, ychydig o darfu a wneir ar fusnes y cyflogwr.

6.10 Cynigiodd y Clerc i gydlynu'r gwaith gyda chynghorau ar draws Gogledd Cymru i hyrwyddo'r system dyletswydd ran amser. Roedd yn teimlo gan eu bod yn gyflogwyr mawr byddai'n gyfle i ymestyn at gynulleidfa eang ac y dylai gwaith gael ei wneud gyda'r adrannau adnoddau dynol o fewn y cynghorau. Derbyniwyd y cynnig hwn a'i gytuno fel gweithred.

6.11 Pwysleisiodd yr Is-Gadeirydd mor bwysig yw gwaith y System Dyletswydd Ran Amser, ac roedd yn ddiolchgar i aelodau'r Fforwm am roi o'u hamser i ddod â'r syniadau cadarnhaol hyn trwy'r Fforwm.

6.12 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth oedd yn y cyflwyniad.**

7 Y RHAGOLYGON CYLLIDEBOL 2010/11

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad fel cyfle cynnar i roi gwybod i'r Aelodau am y pwysau arwyddocaol hysbys ar y gyllideb yn 2010/11 a thu hwnt. Nid oedd modd mesur yr holl bwysau ar y pryd, ond lle bo modd cawsant eu cynnwys ar gyfer llunio cyllideb ddangosol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Un enghraifft oedd y gwaith gwerthuso swyddi, ac mae hyn bellach yn y cam o greu model cyflogau, ac wedi hynny bydd yr union gostau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn hysbys.

7.2 Bydd y Gwasanaeth yn wynebu pwysau o ganlyniad i gost refeniw Firelink a'r isadeiledd TGCh, a hefyd y gost o fenthyca cyfalaf. Roedd

angen cynnydd o 4.7%, ond roedd setliad y Grant Cynnal Refeniw yn debygol o fod lawer iawn yn is.

7.3 Rhagwelid mai'r dyfarniad cyflog ar gyfer diffoddwyr tân fydd 1.25% ar gyfer 2009/10; byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach gan y Cyd-bwyllgor Cenedlaethol ar Orffennaf 23ain.

7.4 Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar am yr adroddiad cynnar, ac yn tynnu sylw at y ffaith fod pob awdurdod cyfansoddol hefyd yn wynebu toriadau llym yn eu cyllid, ac y byddai angen i setliad yr Awdurdod gael ei gadw cyn ised â phosib.

7.5 **PENDERFYNWYD gofyn am gyflwyniad ar yr isadeiledd TGCh yn y cyfarfod ym mis Medi, a nodi'r wybodaeth a ddarparwyd hyd yn hyn ynghylch y pwysau ar y gyllideb.**

8 PENODI HYRWYDDWR IECHYD A DIOGELWCH

8.1 Cyflwyniad yr adroddiad i ofyn i'r Aelodau ystyried cael Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch.

8.2 Yn ddiweddar, roedd y Gwasanaeth wedi adolygu ei Bolisi Iechyd a Diogelwch, ac fel rhan o'r broses, roedd yn credu y deuai llawer o fudd o gael Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch ar yr Awdurdod Tân, a hynny er mwyn rhoi arweiniad gwleidyddol i'r gwaith o reoli Iechyd a Diogelwch.

8.3 Enwebwyd y Cyng. M Ll Davies gan yr Is-Gadeirydd fel Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch, a chytunodd yr holl Aelodau i hyn.

8.4 **PENDERFYNWYD penodi'r Cyng. M Ll Davies yn Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch ar yr Awdurdod Tân.**